**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 18 Mawrth 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus
Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai

**Awdur yr Adroddiad:** Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio

**Teitl:** ‘Canllawiau Cynllunio Atodol ‘Adeiladau Rhestredig’ - Mabwysiadu’r ddogfen derfynol

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i Aelodau am ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus 11 wythnos a gynhaliwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar gyfer: 'Adeiladau Rhestredig’, ac yn argymell mabwysiadu’r ddogfen yn unol â’r diwygiadau arfaethedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, y gellir trin Canllawiau Cynllunio Atodol fel ystyriaethau cynllunio perthnasol pan fo Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

2.2 Cynhaliodd tîm Cynllunio Datblygu a Pholisi ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus 11 wythnos rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Chwefror 2015, gan drafod y canlyniadau gydag Aelodau yng nghyfarfod Grŵp Llywio’r CDLl ar 16 Chwefror 2015. Felly, mae angen penderfyniad ar fwriad y Cyngor i fabwysiadu'r CCA drafft.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau yn mabwysiadu’r CCA 'Adeiladau Rhestredig’ drafft (Atodiad I), yn unol â’r diwygiadau arfaethedig, ar gyfer penderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Os caiff y ddogfen ei mabwysiadu, bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn un o gyfres o GCA sy'n ymhelaethu ar bolisïau neu egwyddorion Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (CDLl) ar gyfer dyraniadau safle unigol mewn fformat sy'n ceisio llywio proses, dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd.

4.2 Yn dilyn mabwysiadu’r CDLl, mae angen diweddaru'r CCAau i ddarparu canllawiau manylach i gynorthwyo trafodaethau aelodau’r cyhoedd, Aelodau’r Cyngor, datblygwyr arfaethedig a Swyddogion cyn i geisiadau cynllunio gael eu cyflwyno ac, yn dilyn hynny, penderfynu arnynt yn y dyfodol.

4.3 Cymeradwywyd y ddogfen ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 11 wythnos yn y Pwyllgor Cynllunio ar 22 Hydref 2014.

4.4 Gwahoddwyd y cyhoedd i roi sylwadau ar y ddogfen ddrafft rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 13 Chwefror 2015. Daeth 6 sylw i law yn ystod y cyfnod ymgynghori; nid oeddynt yn gwrthwynebu’r ddogfen ddrafft. Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o bob ymateb a dderbyniwyd ac amlinelliad o’r newidiadau arfaethedig. Mae copïau o'r sylwadau gwreiddiol ar gael gan y Tîm Cynllunio Strategol a Thai.

4.5 Mae newidiadau arfaethedig yn cael eu dangos wedi’u hamlygu neu fel testun â ~~llinell trwyddo~~ yn y CCA diwygiedig sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y CCA yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol;
- Datblygu'r economi leol; mae gwelliannau i Ardaloedd Cadwraeth yn codi ymddangosiad gweledol aneddiadau yn Sir Ddinbych ac felly yn denu twristiaid a busnesau i'r ardal.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r CCA drafft yn creu unrhyw gostau ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Cafodd cynnwys y CCA drafft ei sgrinio am effeithiau andwyol tebygol ar yr wyth nodwedd a ddiogelir ac roedd yr adroddiad sgrinio ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio ar 22 Hydref 2014. Gan fod yr holl newidiadau arfaethedig i'r CCA drafft o nodwedd ffeithiol neu olygyddol mân, ni ystyrir ei bod yn angenrheidiol i gynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn ar gyfer y CCA hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorodd y Cyngor ag ymgyngoreion statudol, pob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned ac aelodau o'r cyhoedd ar y ddogfen ddrafft am gyfnod o 11 wythnos rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 13 Chwefror 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys datganiadau i'r wasg a llythyr at yr holl bobl sydd ar gronfa ddata Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl).

8.2 Trafodwyd canlyniadau'r ymgynghoriad yng nghyfarfod Grŵp Llywio'r CDLl ar 16 Chwefror 2015.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Ni ragwelir y bydd y gwaith hwn yn creu unrhyw bwysau cost ychwanegol ond os bydd yna bydd angen cynnwys y costau hyn o fewn adnoddau presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb fabwysiadu canllawiau wedi'u diweddaru, mae perygl y bydd y Cyngor yn methu darparu cyngor a gwasanaeth cywir i'w gwsmeriaid.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).